**Rhif: WG43652**

Llywodraeth Cymru

# Sefydliadau Bridio Cŵn – Canllawiau i Awdurdodau Lleol – crynodeb o'r ymateb

Rhagfyr 2021

## Trosolwg

Cynhaliwyd adolygiad o Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid ('y Fframwaith') a chyflwynwyd adroddiad ac argymhellion yr adolygiad i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Er mwyn mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion yn yr Adolygiad, mae gwaith ar y gweill mewn perthynas â mynd i'r afael â rhwystrau i orfodi Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Mae rhan o'r broses hon yn cynnwys diweddaru'r Canllawiau y mae Awdurdodau Lleol yn eu defnyddio wrth asesu ceisiadau ac arolygu safleoedd.

### Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig.

### Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

### Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Y Gangen Lles Anifeiliaid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: companionanimalwelfare@gov.cymru

### Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymateb a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Linc i'r dogfennau ymgynghori: Canllawiau Awdurdodau Lleol

## Cynnwys

Ymarfer Ymgynghori …………………………………………………………………… 4

1.1 Gwybodaeth Gefndir ……………………………………………………………..4

1.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus ………………………………………………………5

1.3 Cwestiynau'r Ymgynghoriad ……………………………………………………5

Ymatebion i'r Ymgynghoriad …………………………………………………...6

2.1 Cwestiwn 1 ………………………………………………………………………..6

2.2 Cwestiwn 2 ………………………………………………………………………..7

2.3 Cwestiwn 3 ………………………………………………………………………..7

2.4 Cwestiwn 4 ………………………………………………………………………..8

Y Camau Nesaf ..............................................................................................8

Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd i'r Ymgynghoriad.....................................9

## 1. <u>Ymarfer Ymgynghori</u>

### 1.1 Gwybodaeth Gefndir

**Cyflwyniad**

Disodlodd Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 ('y Rheoliadau') Ddeddf Bridio Cŵn 1973 yng Nghymru ac mae'n darparu ar gyfer trwyddedu personau sy'n ymwneud â bridio cŵn gan Awdurdodau Lleol ('ALlau'). Cyflwynodd y Rheoliadau feini prawf llymach ar gyfer sefydliadau bridio a sefydlodd gymhareb gofalwr i gŵn llawn dŵf o leiaf un aelod llawn-amser o staff i 20 o gŵn llawn dŵf.

Y rheoliadau oedd y cyntaf o'u math yn y DU ac, er bod gan lawer o sefydliadau lles ac elusennau safbwyntiau gwahanol ar gynnwys y rheoliadau, cawsant groeso eang.

Ers cyflwyno'r rheoliad, bu pryderon parhaus ynghylch y safonau mewn rhai safleoedd trwyddedig a'r adnoddau a'r arbenigedd sydd ar gael o fewn Awdurdodau Lleol i fynd i'r afael â'r materion.

**Adolygiad o'r Rheoliadau Bridio**

Yn dilyn rhaglen Ymchwiliad BBC Cymru ar safleoedd bridio cŵn yng Nghymru gofynnwyd i Grŵp Gorchwyl a Gorffen bach, a dynnwyd o aelodau Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru, adolygu a gwneud argymhellion ar Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, gyda'r bwriad o hyrwyddo darpariaeth lles ar gyfer cŵn bridio a'u cŵn bach yng Nghymru.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgysylltu rhwng Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac Awdurdodau Lleol ar 19 Tachwedd 2019 i ddeall y materion sy'n wynebu swyddogion a milfeddygon yr ALl sy'n delio â safleoedd bridio cŵn.

Yn yr adroddiad a luniwyd wedi hynny gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen (“yr Adolygiad”), rhoddwyd ystyriaeth i'r darpariaethau presennol ar gyfer bridio cŵn yng Nghymru, gan gynnwys deddfwriaeth, canllawiau a'u gorfodi, yn ogystal ag ystyried a oedd angen unrhyw ddarpariaethau ychwanegol a beth y gallent fod.

Cyflwynwyd yr Adolygiad i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Cyhoeddwyd [ymateb y Llywodraeth] i'r Adolygiad ar 4 Mawrth 2020

**Canfyddiadau ac argymhellion**

Er mwyn mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion yn yr adolygiad, mae gwaith ar y gweill mewn perthynas â mynd i'r afael â rhwystrau i orfodi Rheoliadau Lles

Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014. Mae prosiect tair blynedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gwella hyfforddiant a gwell canllawiau i arolygwyr ynghyd â defnyddio adnoddau'n well mewn Awdurdodau Lleol a ledled Cymru, wedi'i sefydlu ac yn cael ei arwain gan Safonau Masnach Cymru.

**1.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus**

Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus wyth wythnos ar Sefydliadau Bridio Cŵn-Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ar 23 Gorffennaf 2021 a daeth i ben ar 17 Medi 2021. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y diwygiadau a argymhellwyd i'r Canllawiau a wnaed gan y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid o ganlyniad i'r Adolygiad.

**1.3 Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

Gofynnwyd i'r ymatebwyr ystyried 4 cwestiwn:

1) **Adran 1**- Ydy'r Canllawiau'n darparu digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gwahanol sefyllfaoedd a safleoedd ble y caiff cŵn eu bridio (yn amrywio o, er enghraifft, cartrefi ar raddfa fach, i safleoedd bridio masnachol)?

2) **Adran 3** - Ydy'r cyngor ychwanegol ynghylch pennu cymarebau staff i gŵn llawn dŵf yn nodi'n glir y dylai'r swyddogion arolygu ystyried hyn fesul achos?

3) **Adran 4 -** Ydych chi'n cytuno y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng swyddogaeth y milfeddyg preifat, a hefyd swyddogaeth y milfeddyg archwilio a diffino'r swyddogaethau hyn, ac y dylai milfeddygon archwilio fod yn annibynnol ac na ddylent archwilio safleoedd eu cleientiaid eu hunain?

4) **Gwybodaeth Ychwanegol** - Mae'r diwygiadau a awgrymir i faint lle ymarfer yn gymhleth ac mae angen eu hystyried ymhellach. Mae croeso i chi roi sylwadau ar y meintiau amgaeëdig presennol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gweithgor arbenigol yn cael ei ffurfio i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Bydd drafft o atodiad ar wahân yn cael ei gynnal unwaith y bydd prif gorff y Canllawiau wedi'i gwblhau.

## 2. <u>Ymateb i'r Ymgynghoriad</u>

Cafwyd 68 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac roedd 15 ohonynt yn ymatebion union yr un fath, yn deillio o un ateb templed. Rhestrir y sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A.

### 2.1 Cwestiwn 1 - Ydy'r Canllawiau'n darparu digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gwahanol sefyllfaoedd a safleoedd ble caiff cŵn eu bridio (yn amrywio o, er enghraifft cartrefi ar raddfa fach, i safleoedd bridio masnachol)?

Roedd 16 o ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n rhoi digon o wybodaeth i fynd i'r afael â'r gwahanol sefyllfaoedd y mae cŵn yn cael eu magu ynddynt. Roedd 24 o ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o gyngor, yn enwedig mewn perthynas â bridwyr cartref. Roedd y 28 o ymatebion eraill yn rhoi sylwadau eraill, gan gynnwys:

*Mae'r canllawiau'n canolbwyntio'n glir ar weithrediadau bridio ar raddfa fawr, felly ein hateb i'r cwestiynau hyn yw, Nac ydynt.*

*Yn amlwg, mae'n bwysig nad oes dim byd peryglus nac anghyfforddus wrth adeiladu cytiau cŵn, ac mae'n hanfodol bod trefn lanhau a hylendid i'r safon uchaf. Mae'r geiriad yn berthnasol i fridwyr ar raddfa lai y mae eu cŵn yn cael eu lletya mewn cytiau cŵn ond nid i'r rhai sydd fel arfer yn bridio y tu mewn i'r cartref. (Grŵp Diwygio Bridio Cŵn)*

*Mae'n amlwg nad yw'r geiriad hwn yn berthnasol i'r amgylchedd bridio cartref nodweddiadol. O ystyried ei bod yn ofynnol i'r rhai sy'n arolygu ar ran yr awdurdodau lleol gymhwyso egwyddorion y canllawiau i'r amgylchedd bridio cartrefi, mae hyn yn cynyddu'r rhagolygon o amrywio wrth weithredu amodau trwyddedu. Gallai hyn arwain at oblygiadau negyddol i les anifeiliaid mewn sefydliadau bridio, gydag amwysedd o'r hyn sy'n gyfystyr â lles da mewn amgylcheddau bridio yn y cartref. Dylid ymgorffori argymhellion y Grŵp Fframwaith i roi rhagor o fanylion a gwybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol ar lefel ymarferol i unrhyw arolygydd wrth arolygu amgylchedd domestig. (Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru).*

*Nid oes cyfiawnhad dros wahanol reoliadau mewn gwahanol amgylcheddau gan fod anghenion lles y cŵn yn aros yr un fath, ond dylid ystyried priodoldeb systemau rheoli sydd ar waith ar gyfer gwahanol raddfeydd gweithredu. (Cymdeithas Bridwyr Cŵn Trwyddedig (Cymru)).*

**2.2 Cwestiwn 2 - Adran 3 - Ydy'r cyngor ychwanegol ynghylch pennu cymarebau staff i gŵn llawn dŵf yn nodi'n glir y dylai'r swyddogion arolygu ystyried hyn fesul achos?**

Roedd 15 o ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau fel y'u diwygiwyd yn rhoi eglurder y byddai swyddogion archwilio yn pennu'r gymhareb staff i gŵn llawn dŵf fesul achos. Nid oedd 22 o ymatebwyr yn cytuno ac o'r 22, roedd 17 yn credu y dylid cynnwys cyngor manylach. Rhoddodd 13 o ymatebwyr sylwadau ar y gymhareb ei hun yn hytrach na'r Canllawiau drafft. Roedd 15 ymatebydd o'r farn y byddai'r gwelliannau arfaethedig yn ychwanegu dryswch, ond roeddent yn cytuno y bydd gofynion gwahanol safleoedd yn amrywio ac awgrymodd fod angen i swyddogion awdurdodau lleol ystyried hyn.

*Bydd profiad a sgiliau'r perchennog (a'i staff) hefyd yn effeithio ar ba gymhareb staff / cŵn sy'n dderbyniol mewn sefydliad cofrestredig. Mae'n debygol y bydd rhywun sydd wedi bridio cŵn yn llwyddiannus dros nifer o flynyddoedd yn gallu diwallu anghenion llawer o gŵn a chŵn bach yn well na rhywun sy'n newydd i fyd cŵn.*

*Yn hytrach na meddwl am rifau hap, y peth pwysicaf yw bod swyddogion trwyddedu'n pennu cymarebau staff / cŵn sy'n seiliedig ar allu'r perchennog (a'i staff) i ddiwallu anghenion iechyd a lles y cŵn a nifer y cŵn bach a ddisgwylir ar y safle.*

*Mae'n annhebygol y caiff toreidiau eu geni'n gyfartal dros y flwyddyn, felly dylid ystyried y nifer mwyaf o gŵn bach a chŵn llawndwf y gall aelod o'r staff ofalu amdanynt ar unrhyw adeg.* Kennel Club

*Mae'r trefniadau presennol yn gweithio'n dda, felly nid oes angen eu newid.* (Gary Pugh)

**2.3 Cwestiwn 3 - Adran 4 - Ydych chi'n cytuno y dylid gwahaniaethu'n glir rhwng swyddogaeth y milfeddyg preifat, a hefyd swyddogaeth y milfeddyg archwilio a diffino'r swyddogaethau hyn, ac y dylai milfeddygon archwilio fod yn annibynnol ac na ddylent archwilio safleoedd eu cleientiaid eu hunain?**

Cafwyd 46 o ymatebion yn cytuno â'r argymhelliad hwn a thri yn anghytuno. Cafwyd sylwadau eraill gan dri arall. Ni chafwyd ateb gan un. Cododd 15 o ymatebwyr bryderon gyda'r cwestiwn gan eu bod yn teimlo ei fod yn rhoi darlun anghywir o sut y cynhelir archwiliadau gan awgrymu nad yw milfeddygon yn gweithredu mewn modd proffesiynol. Mae trefniadau archwilio Awdurdodau Lleol yn amrywio. Mae rhai ohonynt yn penodi milfeddyg preifat i archwilio safleoedd ar eu rhan. Am y rheswm hwnnw, mae angen mwy o eglurder ynghylch rolau milfeddygon yn y Canllawiau.

*Fel a nodir yng Nghod Ymddygiad Proffesiynol yr RCVS, mae cyfrifoldeb proffesiynol ar filfeddygon i weithio yn eu maes arbenigedd. Felly dim ond milfeddygon sydd â digon o brofiad a/neu hyfforddiant o archwilio a thrwyddedu busnesau anifeiliaid, ac sydd â chofnod CPD ar gyfer yr anifail dan sylw, ddylai gynnal archwiliadau.*

*Yn ogystal, dylai milfeddygon fod yn ymwybodol hefyd bod Cod Ymddygiad Proffesiynol yr RCVS yn datgan y dylai milfeddygon roi barn annibynnol a diduedd a rhoi gwybod i gleient am unrhyw wrthdaro buddiannau. Dywed y Cod hefyd y dylid,*

*a siarad yn gyffredinol, osgoi gwrthdaro buddiannau. Ni ddylai milfeddygon sy'n llofnodi tystysgrifau adael i bwysau masnachol, ariannol nac eraill beryglu'u gallu i fod yn ddiduedd".*

*O ganlyniad, er mai mater i'r milfeddyg yw penderfynu a oes gwrthdaro, nid yw fel arfer yn ddoeth iddo gynnig archwilio ei gleientiaid. (Cymdeithas Milfeddygon Prydain).*

*Dim ond y rhai sydd wedi'u cofrestru gyda Choleg Brenhinol y Milfeddygon sy'n cael bod yn filfeddygon yng Nghymru, a'r DU - a dylai pob un gadw at God Ymddygiad Proffesiynol yr RCVS, gan gynnwys y pedwar egwyddor ymarfer; sef cymhwysedd proffesiynol, gonestrwydd ac uniondeb, annibyniaeth a didueddrwydd. O'r herwydd, dylai unrhyw filfeddyg allu gwahanu unrhyw fuddiant sy'n gwrthdaro oddi wrth ei berthynas flaenorol â pherchennog sefydliad bridio, a chanolbwyntio yn hytrach ar les yr anifail dan sylw. Er ein bod yn sicr y bydd mwyafrif llethol milfeddygon Cymru'n gallu gwneud hyn, rydym yn deall o raglen ddogfen y BBC, a thystiolaeth arall, y gall gwrthdaro buddiannau godi; sy'n dangos bod angen gwneud mwy i warantu annibyniaeth milfeddygon sy'n cynnal archwiliadau. O'r herwydd, teimlwn trwy ddiffinio'n glir y dylai milfeddygon archwilio fod yn annibynnol, ac na ddylent archwilio safleoedd eu cleientiaid eu hunain, y byddai hynny'n helpu i sicrhau tryloywder ac uniondeb y broses; a sicrhau nad oes gan y rhai sy'n cynnal archwiliadau ar ran y cyngor unrhyw wybodaeth na chefndir heblaw am yr hyn a welant yn yr archwiliad. Teimlwn y bydd hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol i'r cyhoedd o ran dibynadwyedd y broses archwilio. (RSPCA Cymru)*

**2.4 Cwestiwn 4 – Gwybodaeth Ychwanegol - Mae'r diwygiadau a awgrymir i faint lle ymarfer yn gymhleth ac mae angen eu hystyried ymhellach. Mae croeso i chi roi sylwadau ar y meintiau amgaeëdig presennol. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd gweithgor arbenigol yn cael ei ffurfio i fwrw ymlaen â'r mater hwn. Bydd drafft o atodiad ar wahân yn cael ei gynnal unwaith y bydd prif gorff y Canllawiau wedi'i gwblhau.**

Cafwyd sylwadau amrywiol yn ymwneud â maint cytiau, gan gynnwys ceisiadau i gael bod yn aelodau o'r gweithgor. Roedd y sylwadau'n amrywio o gefnogaeth i'r meintiau presennol i gefnogi'r farn eu bod yn rhy fach a bod angen eu hadolygu.

Roedd sylwadau eraill yn mynegi barn am fridio cŵn yn gyffredinol a byddwn yn eu hystyried wrth ddiwygio'r canllawiau yn y dyfodol.

## Y Camau Nesaf

Mae'r holl sylwadau ar yr ymgynghoriad wedi'u dadansoddi. Bydd y sylwadau a'r newidiadau a awgrymir, lle y bo'n briodol, yn cael eu cynnwys yn y Canllawiau. Cyhoeddir drafft terfynol o'r Canllawiau cyn gynted â phosibl.

Bydd sylwadau a dderbynnir ar feintiau cytiau yn cael eu crynhoi a'u cyflwyno i dîm y Prosiect Gorfodi Bridio Cŵn, a fydd yn cael eu cynnwys yn y gweithgor sydd i'w sefydlu i ystyried y maes hwn.

**Atodiad A – Sefydliadau a ymatebodd i'r Ymgynghoriad**

Albert Heath

Alison Harvey

Andrea Bennett

Annie Wilson

The Association of Licensed Dog Breeders (Wales)

Barbara Reese

Battersea dogs Homes

Blue Cross

Bridget Osborne

British Veterinary Association

Caerphilly Council

Ceredigion Council

Charlotte Bevan

Companion Animal Welfare Group Wales

Countryside Alliance

Dog Breeding Reform Group

Dogs Trust

Drusilla Williams

Dylan Jones

Elizabeth Roberts

Eric Price

Four Paws UK

Gary Pugh

Gwynlais Phillips

Hugh Davies

Joanna Relph

John Wyn Jones

Julia Metcalfe

Karen Lewis

The Kennel Club

Lesley Jones

Macwydd Kennels

Margaret Gilmour

Maritsa Dee

Martina Hogg

Maureen Heath

NeighbourWoof Watch

PDSA

Richard Ackers

RSPCA Cymru

Sally Weale

Sara Butler

The Self Help Group for Farmers, Pet Owners and Others experiencing difficulties with the RSPCA (The SHG)

Sian Meredudd

Stephen Bale

Susan Parfitt

Tammy James

Vicky Smillie